

Teitl: Polisi a Chod Ymarfer Rhyddid Barn
Title: Freedom Of Speech Policy & Code of Practice
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2018
Issue Date: January 2018

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Cyfrifoldeb: Responsibility:	<i>Pennaeth Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Cwricwlwm</i> <i>Assistant Principal & Director of Curriculum</i>
Corff Cymeradwyo: Approval body:	<i>Pwyllgor Arweinyddiaeth, Perfformiad a Gwella (LPIC) a'r Corff Llywodraethol</i> <i>LPIC & Governing Body</i>
Dyddiad Cymeradwyo: Approval date:	<i>29 Ionawr 2018 (LPIC)</i> <i>Ebrill 2018 (Bwrdd)</i> <i>29 January 2018 (LPIC)</i> <i>April 2018 (Board)</i>
Amllder Adolygu: Review Frequency:	<i>3 blynedd</i> <i>3 Years</i>
Dyddiad Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb: Equality Impact Assessment Date:	<i>Tachwedd 2017</i> <i>November 2017</i> <u>Cysylltiad i Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb</u>
Dyddiad y Daw i Ben: Expiry Date:	<i>28 Ionawr 2021</i> <i>28 January 2021</i>

Cwmpas / Scope

Gweler y polisi i gael rhagor o fanylion.

I'w bennu gan y Rheolwr Gweinyddol a Gwasanaethau Cwsmeriaid / To be assigned by the Admin & Customer Service Manager

Cyfeirnod: Reference:	<i>Caiff ei bennu wedi cymeradwyo'r ddogfen</i> <i>This will be assigned to the document on approval</i>
--	---

Fersiwn: Version:	
Dosbarthiad: Classification:	<i>Dogfen Arferol</i> <i>Normal</i>

Cynnwys

- Datganiad Polisi am Ryddid Barn
- Cod Ymarfer Rhyddid Barn
- Cyfarfodydd a digwyddiadau ar safleoedd y coleg
 - a. Cyfarfodydd a digwyddiadau y mae'r cod hwn yn berthnasol iddynt
 - b. Trefnu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau cyffelyb
- Adeiladau'r coleg ar gael i'w defnyddio gan sefydliadau allanol
- Atodiad

Datganiad Polisi Rhyddid Barn

Mae'n rhaid i fyfyrwyr, llywodraethwyr a gweithwyr y coleg ymddwyn i sicrhau bod rhyddid barn myfyrwyr, llywodraethwyr, gweithwyr y coleg a siaradwyr gwadd, o fewn y gyfraith.

Dim ond arferion rhyddid barn o fewn y gyfraith sy'n cael eu diogelu gan y Cod Ymarfer hwn. Mae'r coleg yn credu mai dim ond os yw pawb dan sylw yn osgoi defnyddio ymddygiad ac iaith sarhaus neu bryfocio, y gellir cyflawni diwylliant o drafod rhydd, agored a gonest. Er nad oes gwaharddiad cyfreithlon am dramgwyddo eraill, mae'r coleg yn disgwyl i siaradwyr, a'r rheiny sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd, barchu gwerthoedd, bod yn sensitif i amrywiaeth eu cymuned a pharchu dangos parch i bob adran o'r gymuned honno.

Mae digwyddiad sy'n debygol o arwain at amgylchedd lle bydd pobl yn profi, neu gellid yn rhesymol ofni, aflonyddu, bygwth, cam-drin geiriol neu drais oherwydd eu hethnigrwydd, eu hil, eu crefydd neu gred, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu rhyw, eu hanableddau neu eu hoedran, hefyd yn debygol o fod yn erbyn y gyfraith o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn disgwyl i bob sefydliad addysg bellach ddangos 'sylw digonol i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu gan derfysgaeth'. Gosodir hyn yn Adran 26 a'r ddyletswydd 'Prevent' cysylltiedig yn adran 29 y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn disgwyl fod gan bob darparwr addysg brotocol clir ar gyfer siaradwyr gwadd, a bod y siaradwyr gwadd yn addas ac yn cael eu goruchwyllo'n briodol. Nid bwriad y ddyletswydd 'Prevent' yw cyfyngu ar drafod y materion hyn. Fodd bynnag, mae'r coleg yn ymwybodol o'u dyletswyddau presennol i wahardd trwytho gwleidyddol a sicrhau bod materion gwleidyddol yn cael eu cyflwyno'n gytbwys.

Mae'r datganiad polisi hwn hefyd yn gyfarwydd â Pholisi Chwythu'r Chwiban y coleg, a'i fwriad ydi annog a galluogi staff i godi materion difrifol o fewn y coleg, yn ogystal â rhoi sicrwydd i weithwyr bod pryderon felly, sy'n cael eu hamlygu yn gyfreithlon, yn ddiwyll, heb gasineb, ac er lles y cyhoedd, yn cael eu hymchwilio.

Mae'r polisi hwn yn cydffurfio ag ymddygiadau'r coleg sy'n cynnwys "parchu a bod yn dryloyw".

Cod Ymarfer – Rhyddid Barn

Cod Ymarfer a gyhoeddir dan adran 43 y Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986:

1. Mae'n ofynnol i'r coleg o dan Adran 43 y Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986 gyhoeddi a chadw cod ymarfer diweddar sy'n cyfeirio at ryddid barn mewn prifysgolion, colegau polytechnig a cholegau. Bydd y cod ymarfer (a amlinellir yma) yn cael ei ddilyn gan holl fyfyrwyr a gweithwyr y coleg ar gyfer trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar safleoedd y coleg (tu mewn a thu allan iddynt) ac am yr ymddygiad sy'n ofynnol gan fyfyrwyr a gweithwyr y coleg mewn cysylltiad â chyfarfodydd a digwyddiadau.
2. Mae torri'r Cod Ymarfer hwn, boed yn fwriadol neu'n ddifeddwl, yn drosedd sy'n gallu arwain at weithred ddisgyblu (gan ddilyn gweithdrefnau perthnasol ar gyfer myfyrwyr a chyflogwyr) a lle bo gweithrediadau unrhyw unigolion yn cynnwys tor-cyfraith honedig, bydd y coleg yn cynorthwyo'r awdurdodau sy'n erlyn wrth weithredu prosesau priodol y gyfraith. Gall unrhyw weithredoedd disgyblu gael eu gohirio neu eu hatal wrth aros am ganlyniad unrhyw achosion troseddol.

Cyfarfodydd a digwyddiadau ar safleoedd y coleg

(a) Cyfarfodydd a digwyddiadau y mae'r cod hwn yn berthnasol iddo

Yn y rhan hwn o'r cod, mae 'cyfarfod' neu 'ddigwyddiad' yn cyfeirio at gyfarfodydd neu ddigwyddiadau lle bo hanfod y cyfarfod neu ddigwyddiad, hunaniaeth siaradwr neu siaradwyr neu unrhyw ffactor arall, yn creu sail i bryderu ar ran y trefnwyr, rheolwyr y coleg neu unigolion eraill, y gellir amharu ar y digwyddiad bwriedig neu y gallai'r digwyddiad arwain at drais, anhrefn, aflonyddwch neu unrhyw weithgarwch anghyfreithlon arall.

1. Mae'r coleg yn gyfrifol am gymeradwyo trefniadau addas ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau cyffelyb a bydd yn gallu gwneud cyfarwyddiadau o'r fath, neu roi cyfarwyddiadau o'r fath, fel y bo'n angenrheidiol i sicrhau bod natur ac ymddygiad y cyfarfod yn gyfreithlon ac yn unol â darpariaeth y Cod hwn.

(b) Trefnu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau cyffelyb

1. Mae angen awdurdodi cyfarfodydd a chynulladau cyhoeddus sy'n cael eu cynnal ar safleoedd y coleg, boed y tu mewn neu du allan. Mae'n angenrheidiol cael caniatâd gan y Cyfarwyddwr Cwricwlwm perthnasol neu reolwr uwch perthnasol arall, ynghyd â manylion dyddiad, amser, a lleoliad y gweithgaredd a fwriedir. Mae'n rhaid cymeradwyo pob siaradwr gwadd cyn y digwyddiad yn unol â phroses siaradwyr gwadd ac asesiad risg.
2. Mae'n rhaid i drefnwyr cyfarfodydd a digwyddiadau gydymffurfio ag unrhyw amodau a osodwyd gan y coleg ynghylch trefnu'r gweithgaredd a'r trefniadau sydd i'w gwneud er mwyn sicrhau diogelwch pawb sy'n cymryd rhan.

3. Os oes gan unrhyw un bryderon am gyfarfod neu ddigwyddiad arfaethedig, dylent fynegi eu pryderon i'w uwch reolwr ac yna bydd yr uwch reolwr yn cymryd camau rhesymol fel y nodwyd ym mharagraff 2 (a) Cyfarfodydd a Digwyddiadau y Mae'r Cod hwn yn Berthnasol Iddynt (uchod).
4. Dylai trefnwyr cyfarfodydd a digwyddiadau gydymffurfio ag unrhyw amodau a bod yn gyfrifol am dalu unrhyw gostau a osodwyd gan y coleg yn gysylltiedig â threfniadau cynnal y cyfarfod. Gall yr amodau gynnwys gofyn am ddsbarthu tocynnau, y dylid darparu nifer digonol o stiwardiaid, y dylid ymgynghori â'r heddlu ynghylch y trefniadau, ac y dylid newid amser a lleoliad y cyfarfod.
5. Ni fydd y coleg yn ceisio cyfyngu ar gyfarfod neu ddigwyddiad neu ei ganslo os dilynwyd yr holl ofynion sydd wedi eu gosod yn y cod hwn, oni bai eu bod yn credu'n rhesymol fod y cyfarfod neu ddigwyddiad yn tresmasu ar hawliad a rhyddid eraill neu yn gosod risg iechyd a diogelwch sylweddol neu fod sail sylweddol a chyfreithlon arall am gyfyngu neu ganslo cyfarfod neu ddigwyddiad.
6. Bydd y Coleg yn dewis beth i'w wneud ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael iddynt yn ofalus a bydd yn gyfyngedig i'r camau hynny sy'n rhesymol, yn gymesur ac yn angenrheidiol er mwyn atal troseddau neu anhrefn, neu fel arall yn amddiffyn hawliau a rhyddid cyfreithlon pobl eraill.
7. Os yw trefnydd yn anfodlon gyda phenderfyniad y coleg, bydd yn gallu ysgrifennu at y Prif Weithredwr gan nodi rhesymau clir pam eu bod yn anhapus gyda'r penderfyniad a gofyn am ail-ystyried y penderfyniad.

(c) Adeiladau'r coleg ar gael i'w defnyddio gan sefydliadau allanol

Mewn unrhyw achos lle bo'r coleg yn cynnig rhoi caniatâd i sefydliad neu grŵp allanol gynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau ar safleoedd y coleg, bydd gofyn i'r grŵp neu sefydliad allanol ymddwyn yn unol â'r Cod Ymarfer hwn.

ATODIAD

Deddfwriaethau a ffynonellau gwybodaeth perthnasol

- Deddf Addysg 1986, Deddf Addysg (Rhif 2) 1986
- Deddf Diwygio Addysg 1988
- Deddf Hawliau Dynol 1998 (gan ymgorffori Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol)
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003
- Rheoliad Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
- Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1976
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabled 1995, fel y'i diwygiwyd
- Deddf Cydraddoldeb 2006
- Deddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006
- Deddf Trefn Gyhoeddus 1986
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997
- Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 a Deddf Cyfiawnder Troseddol (yr Alban) 2003
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

Polisiâu'r Coleg

Mae'r polisiâu hyn ar gael i staff trwy glicio ar y ddolen [4Policies ar eu bwrdd gwaith neu drwy'r ddolen yma](#)

Polisiâu a gweithdrefnau perthnasol y coleg:

- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Polisi Gwrth-aflonyddu, Bwlio ac Erlid
- Polisi 'Prevent'
- Purdah (yn ystod cyfnodau etholiadau)
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- [Map Proses Siaradwyr Gwadd](#)